

## STOCIO EOGIAID A SEWIN YNG NGHYMRU

### Beth sydd wedi digwydd?

#### Adolygiad o ddeorfeydd a gweithgareddau stocio

Ym mis Rhagfyr 2013 adolygodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei weithgareddau stocio eogiaid a gweithrediadau deorfeydd cysylltiedig. Daeth yr adolygiad i'r casgliad, ar sail tystiolaeth wyddonol, fod y defnydd a wneir o gynlluniau stocio eogiaid gan CNC a thrydydd partiön at ddibenion lliniaru a chynyddu stociau yn cael canlyniadau gwael a'i bod yn bosibl eu bod yn cael effeithiau negyddol.

#### Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym rhwng 4 Mawrth a 27 Mai 2014 er mwyn casglu barn ac unrhyw dystiolaeth berthnasol arall cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen. Yn yr ymgynghoriad cynigiwyd y dylai gweithgareddau stocio a gyflawnir gan CNC a thrydydd partiön at ddibenion lliniaru a chynyddu stociau ddod i ben, y dylai CNC leihau capasiti ei ddeorfeydd yn sylweddol ac ailgyfeirio'r anoddau a ryddheid i mewn i gynlluniau lliniaru amgen er mwyn dod â mwy o fanteision i stociau pysgod a bywyd gwyllt arall. At hynny, argymhellodd y dylai CNC ystyried y posibilrwydd o ddatblygu deorfa olaf CNC yng Nghynrig, ger Aberhonddu, fel canolfan ymchwil pysgodfeydd a dŵr croyw.

#### Adborth ar yr Ymgynghoriad

Cafwyd 112 o ymatebion a oedd yn mynegi safbwyntiau croes. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion (80%) yn gwrthwynebu ein cynigion i roi'r gorau i weithgareddau stocio at ddibenion lliniaru a chynyddu stociau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar fesurau lliniaru amgen megis adfer cynefin. Denodd y sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr arolwg lawer o sylwadau er mai prin oedd y dystiolaeth newydd a ddarparwyd.

Roedd rhai ymatebwyr o blaid defnyddio cynlluniau adfer cynefin ond roedd eraill o'r farn na fyddai cynlluniau adfer cynefin ar eu pen eu hunain yn ddigon i liniau'r effeithiau ar boblogaethau eogiaid ac roedd rhai yn amau tystiolaeth ei effeithiolrwydd. Awgrymwyd mesurau lliniaru amgen eraill ond mynegwyd amheuan ynghylch argaeledd a chost yr opsiynau ac a ellid eu cyflawni ar lawr gwlad. Roedd rhai o'r farn y byddai canolfan ymchwil dŵr croyw yng Nghynrig i'w chroesawu ond roedd eraill o'r farn nad oedd un ddeorfa yn ddigon ac nid oeddent yn credu bod angen canolfan ymchwil.

#### Penderfynu ar y ffordd ymlaen

Adolygodd Cyfarwyddwyr Gweithredol CNC yr adborth ar yr ymgynghoriad, y dystiolaeth dros newid a rhwymedigaethau cyfreithiol CNC ar 9 Medi 2014. Daethant i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth, y dylai argymhellion yr adolygiad sefyll ac y dylid rhoi'r gorau i weithgareddau stocio eogiaid a sewin yn ddi-oed. Cynigiwyd y dylid

cyflwyno'r cynnig i fwrdd CNC i'w gymeradwyo ar 2 Hydref 2014. Cytunodd y bwrdd â safbwynt y cyfarwyddwr a phenderfynodd y dylid newid y polisi ar unwaith.

## Pam bod hyn wedi digwydd?

### Tystiolaeth

Mae cynlluniau stocio wedi'u ddefnyddio'n helaeth ers dros 100 mlynedd mewn ymgais i gynyddu stociau pysgod. Fodd bynnag, dros y 10 mlynedd diwethaf bu sail dystiolaeth yn datblygu sy'n awgrymu nad yw stocio eogiaid a sewin mor effeithiol ag yr oeddem yn arfer credu. Ystyrir bod stocio at ddibenion adfer poblogaeth, a ddefnyddir pan fydd poblogaethau wedi diflannu neu pan fydd niferoedd mor isel fel eu bod ar fin diflannu o'r ardal leol, yn effeithiol dros gyfnodau byr os ymdriniwyd â'r rheswm dros y lleihad mewn stociau. At hynny, mae stocio at ddibenion ymchwil wyddonol yn adnodd gwerthfawr ac fel arfer mae ar raddfa fach ac nid oes unrhyw risg yn gysylltiedig ag ef.

### Stociau yn gwanhau

Gwelir fwyfwy bod astudiaethau gwyddonol yn dod i'r casgliad nad yw stocio at ddibenion lliniaru a chynyddu stociau yn effeithiol. Fodd bynnag, os bydd y math hwn o weithgaredd stocio yn effeithiol, o ran cynyddu niferoedd, ac yn cynhyrchu mwy o bysgod sy'n dychwelyd na silio naturiol, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â mewnfridio a cholli addasiadau lleol yn cynyddu. Yn baradocsaid, po fwyaf o bysgod llawn twf sy'n dychwelyd o gynllun stocio, po fwyaf yw'r risg o niwed genetig i'r stoc a all ei gwanhau drwy leihau ei gallu i addasu i heriau amgylcheddol.

### Statws stociau

Dangosodd asesiad o gydymffurfiaeth â therfynau cadwraeth eogiaid 2013 a gynhaliwyd ar gyfer y 23 o brif afonydd eogiaid yng Nghymru ostyngiad sylweddol yn statws stociau gyda 15 'mewn perygl' a phump 'yn debygol o fod mewn perygl'. Er bod cynhyrchu dŵr croyw yn broblem mewn rhai ardaloedd, mae'r gostyngiad yn nifer yr eogiaid sy'n goroesi yn ystod cyfnod morol eu cylch oes a all fod yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, yn destun pryder mawr. Felly, nawr yn fwy nag erioed, mae angen i ni sicrhau bod ein stociau eogiaid yn iach i wynebu'r heriau hyn.

## Beth fydd yn digwydd nawr?

### Pysgod a ddelir mewn deorfeydd ar hyn o bryd

Yn y byrdymor bydd y newid hwn i'r polisi yn golygu, lle y delir eogiaid a sewin yn neorfeydd CNC a thrydydd partion ar hyn o bryd y cânt eu defnyddio i gwblhau cylch y ddeorfa a chaiff y stoc o bysgod ei dileu cyn diwedd 2015. Bydd deorfeydd Mawddach a Maerdy yng Ngogledd Cymru yn cau a chaiff unrhyw rwymedigaethau parhaus eu trosglwyddo i ddeorfa Cynrig ger Aberhonddu.

## **Mesurau Lliniaru Amgen**

Lle y bydd cynlluniau stocio at ddibenion lliniaru yn dod i ben byddwn yn cyfarfod â'r rhai yr effeithir arnynt er mwyn trafod opsiynau lliniaru amgen. Byddwn yn gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid lleol i ddatblygu cynlluniau lliniaru dalgylchoedd a fydd yn dod â mwy o fanteision i stociau pysgod a bywyd gwylt. Bydd CNC yn ceisio gweithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau partner er mwyn rhoi'r mesurau lliniaru amgen ar waith cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl a all amrywio rhwng dalgylchoedd gan ddibynnu ar gymhlethdod y gwaith. Y nod fydd cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith cyn 31 Rhagfyr 2020.